| | |
|---|---|
| **Adroddiad i'r** | Pwyllgor Llywodraethu ac Archwilio |
| **Dyddiad y cyfarfod** | 19 Mawrth 2025 |
| **Aelod / Swyddog Arweiniol** | Y Cynghorydd Julie Matthews (Dirprwy Arweinydd ac Aelod Arweiniol Polisi, Cydraddoldeb a Strategaeth Gorfforaethol / Gary Williams (Cyfarwyddwr Corfforaethol Llywodraethu a Busnes) |
| **Awdur yr Adroddiad** | Helen Vaughan-Evans (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Perfformiad, Digidol ac Asedau) / Catrin Roberts (Pennaeth Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol - Pobl) |
| **Teitl** | Adroddiad Archwilio Cymru: Trefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau – Cyngor Sir Ddinbych |

## 1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

1.1. Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi Adroddiad Archwilio Cymru am Drefniadau ar gyfer Comisiynu Gwasanaethau yng Nghyngor Sir Ddinbych (CSDd) ac mae'n darparu ymatebion Swyddogion i argymhellion ar gyfer gwelliant.

## 2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

2.1. I sicrhau bod y Pwyllgor yn cael y wybodaeth ddiweddaraf yn dilyn archwiliad allanol yn berthnasol i Gyngor Sir Ddinbych ac yn gallu craffu ar arsylwadau a chamau gweithredu.

## 3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod y Pwyllgor yn ystyried yr adroddiad (Atodiad 1), yr argymhellion cysylltiedig ac ymateb rheoli'r Cyngor (Atodiad 2), gan ddarparu adborth fel sy'n briodol.

## 4. Manylion yr adroddiad

4.1. Rhwng mis Gorffennaf a mis Awst 2024, cynhaliodd Archwilio Cymru adolygiad o drefniadau Cyngor Sir Ddinbych ar gyfer comisiynu gwasanaethau ac yn benodol i ba raddau mae hyn wedi'i ddatblygu yn unol â'r egwyddor datblygu cynaliadwy; ac y bydd yn helpu i sicrhau gwerth am arian wrth ddefnyddio adnoddau'r Cyngor. Mae'r adroddiad llawn wedi'i gynnwys yn Atodiad 1.

4.2. Mae Archwilio Cymru yn gwneud y gwaith hwn ym mhob un o'r 22 prif Gyngor yng Nghymru ac yn ogystal ag adrodd yn lleol wrth bob Cyngor, maent hefyd yn bwriadu cyhoeddi adroddiad cenedlaethol.

4.3. Comisiynu yw'r broses a ddefnyddir gan y Cyngor er mwyn dylunio gwasanaethau y mae'n bwriadu eu darparu. Mae'n dechrau wrth ddiffinio'r gwasanaeth a'r allbynnau a chanlyniadau a ddymunir ac mae'n dod i ben pan fydd y Cyngor yn trefnu'r dull darparu. Er enghraifft, trwy sefydlu tîm darparu yn fewnol, neu trwy gaffael cyflenwr allanol. Nid oedd yr archwiliad hwn yn cwmpasu trefniadau caffael na threfniadau rheoli contractau'r Cyngor.

4.4. Cafodd adroddiad terfynol CSDd ei gyhoeddi ym mis Rhagfyr 2024 a daeth i'r canlyniad cyffredinol fod *y Cyngor wedi nodi disgwyliadau eglur ar gyfer adrannau wrth gomisiynu gwasanaethau, ond nad oes gan y Cyngor drefniadau i sicrhau y cwrddir â'r rhain yn gyson.*

4.5. Mae'r adroddiad yn mynd yn ei flaen i wneud 2 argymhelliad ar gyfer gwelliant. Mae Atodiad 2 yn darparu'r ymateb rheoli i argymhellion Archwilio Cymru ar gyfer gwelliant.

## 5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

5.1 Gall comisiynu'n dda gefnogi gweithredu pob un o 6 Thema'r Cynllun Corfforaethol. Mae bod â threfniadau comisiynu aeddfed yn cyfrannu'n benodol at Thema Cyngor sy'n Cael ei Gynnal yn Dda, ac sy'n Uchel ei Berfformiad ac mae'n adeiladu ar argymhellion ar gyfer gwella o'r Asesiad Perfformiad Panel.

5.2 Bydd effaith comisiynu ar nodau'r Cyngor o ran bod yn Ddi-garbon Net ac Ecolegol Gadarnhaol erbyn 2040 yn amrywio gan ddibynnu ar yr amgylchiadau penodol.

## 6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut fydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

6.1. Nid oes unrhyw gostau’n codi’n uniongyrchol o'r adroddiad hwn.

## 7. Beth yw prif gasgliadau’r Asesiad o Effaith ar Les?

7.1 Nid oes angen Asesiad o’r Effaith ar Les ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi’u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

8.1 Mae canfyddiadau’r adroddiad a meysydd ar gyfer gwelliant wedi’u trafod yn yr adain Gwasanaethau Cymorth Corfforaethol (GCC) - GCC - Pobl, GCC - Perfformiad, Digidol ac Asedau a Chyllid ac Archwilio.

## 9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

9.1 Nid oedd ei angen ar gyfer yr adroddiad hwn.

## 10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

10.1. Nid oes unrhyw risgiau ychwanegol yn codi o’r adroddiad hwn.

## 11. Pŵer i wneud y penderfyniad

11.1 Nid oes angen gwneud penderfyniad.